Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Craig Y Parc

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Craig Y Parc

Ysgol ddydd annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed yw Craig Y Parc. Mae wedi'i lleoli ochr yn ochr â chartref cofrestredig i blant Tŷ Cwtch, sy'n darparu gofal preswyl ar gyfer 16 o bobl ifanc, gan gynnwys tri disgybl sydd ar leoliadau 52 wythnos, un disgybl ar leoliad 38 wythnos, ac 11 o ddisgyblion o'r ysgol sydd ar leoliadau tymor byr. Ar hyn o bryd, mae 22 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys 11 disgybl o'r cartref plant, ac 11 disgybl sy'n ddisgyblion dydd. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae tri disgybl yn blant sy'n derbyn gofal (PDG).

Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion ag ystod o anghenion corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys parlys yr ymennydd, dysffagia, ac epilepsi.

Perchennog yr ysgol yw 'Ambito Education' sy'n gweithredu o dan y rhiant gwmni, 'Salutem Healthcare', sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymorth cymhleth. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol eu lleoli gan awdurdodau yn Ne Cymru. Caiff ychydig iawn o ddisgyblion eu lleoli gan awdurdodau yn Lloegr.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae pennaeth dros dro wedi ymgymryd â chyfrifoldeb am redeg yr ysgol gan y pennaeth dros dro blaenorol.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu yn unol â'u mannau cychwyn unigol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn dod yn ddysgwyr mwy hyderus ac annibynnol, ac yn caffael ystod o fedrau gwerthfawr sy'n eu cynorthwyo'n dda yn eu bywydau yn y dyfodol.
- O gymharu â'u hanghenion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n hyderus â staff, eu cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu o'u dewis nhw er mwyn gwneud dewisiadau am eu dysgu a rhannu eu cyflawniadau.
- Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i ddarparu amgylchedd ysgogol a chefnogol ar gyfer dysgu. Caiff gwersi eu cynllunio'n dda ac maent yn mynd i'r afael â thargedau dysgu unigol disgyblion yn dda.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o ymyriadau therapiwtig sy'n hyrwyddo gallu disgyblion i elwa ar y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys ffisiotherapi, therapi lleferydd ac iaith a therapi galwedigaethol. Mae staff addysg, gofal a therapi yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynol i fynd i'r afael ag anghenion hynod gymhleth y disgyblion. Mae'r agwedd hon ar waith yr ysgol yn gryfder sylweddol.
- Mae'r pennaeth dros dro a benodwyd yn ddiweddar yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Ar y cyd â'r tîm arweinyddiaeth sydd wedi'i ailstrwythuro, mae wedi cryfhau agweddau pwysig ar ddarpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi adolygu strwythur staffio'r ysgol ac wedi rhoi camau gweithredu allweddol ar waith i sicrhau cydymffurfio ag agweddau pwysig ar Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 na fodlonwyd adeg yr ymweliad monitro diwethaf.

### *Meysydd i'w datblygu*

- Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu newidiadau graddol yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r newidiadau hyn, a newid diweddar i berchnogaeth yr ysgol, wedi amharu ar allu'r ysgol i wneud cynnydd digonol yn unol â'r argymhellion o'r ymweliad blaenorol, a chynllunio'n hyderus ar gyfer gwella dros y tymor hir.

- Mae'r pennaeth dros dro wedi ailstrwythuro tîm arweinyddiaeth yr ysgol i ddefnyddio profiad aelodau staff presennol. Mae llawer o'r rhain yn newydd yn eu swydd, ac felly nid oes ganddynt brofiad diweddar o arweinyddiaeth ysgol.

- Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

**A2 Sicrhau sefydlogrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol**

**A3 Darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer tîm arweinyddiaeth yr ysgol a benodwyd yn ddiweddar, i gyflawni eu rolau'n effeithiol**

**A4 Cryfhau systemau i sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn ystod yr ymweliad monitro blaenorol. Yn ychwanegol, ni nodwyd unrhyw feysydd diffyg cydymffurfio ar yr ymweliad hwn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod y dull casglu data yn ddigon trylwyr i fesur cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn llawn**

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth addas o ffyrdd o fesur cynnydd a chyflawniadau disgyblion, gan gynnwys offeryn asesu masnachol i helpu gosod targedau a mesur cynnydd disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd ac addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion hefyd trwy eu cynlluniau addysg unigol (CAUau), sy'n cynnwys targedau buddiol ar gyfer nodau therapiwtig ehangach disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn adolygu'r cynnydd a wna disgyblion yn unol â'r nodau hyn yn rheolaidd, gan ddefnyddio byrddau tystiolaeth 'camau cynnydd bach'.

Mae'r dulliau hyn yn dechrau rhoi tystiolaeth ddefnyddiol o'r cynnydd a wna disgyblion yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar mewn rolau a chyfrifoldebau wedi golygu bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd anghyson hyd yn hyn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Yn benodol, nid yw'r arfer o fonitro a sicrhau ansawdd casglu data yn ddigon trylwyr.

**Argymhelliad 3: Gwella hunanasesu ar draws yr ysgol i lywio cynllunio gwelliant**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei phrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth yn dda am eu meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn helpu sicrhau eu bod yn diwallu anghenion o ddydd i ddydd eu disgyblion yn dda.

Mae adroddiad hunanwerthuso'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol, a ysgrifennwyd gan y staff addysgu, sy'n darparu trosolwg buddiol a manwl o waith yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae ystod y dystiolaeth i lywio'r gwaith hwn, gan gynnwys dadansoddi data cynnydd disgyblion a theithiau dysgu.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf dybryd ar gyfer gweithredu. Er enghraifft, maent wedi cryfhau polisïau ac arferion yn yr ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â meysydd diffyg cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, a nodwyd yn yr ymweliad monitro blaenorol. Mae'r pennaeth dros dro wedi nodi ystod addas o flaenoriaethau i fynd i'r afael â'r meysydd pwysig i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith hwn wedi digwydd yn ddiweddar

iawn, ac mewn ychydig o achosion, nid yw blaenoriaethau yn nodi’r union gamau gweithredu y dylid eu cymryd, nac yn nodi’r amserlenni ar gyfer cyflawni yn ddigon clir.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr fod arsylwadau ystafell ddosbarth yn canolbwyntio ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu**

Mae’r tîm arweinyddiaeth yn cynnal teithiau dysgu rheolaidd gyda ffocws nodedig ar feysydd perthnasol addysgu a dysgu. Mae arweinwyr yn rhannu adborth gyda’r tîm staff ehangach ac yn nodi’n briodol y cryfderau allweddol a’r meysydd i’w datblygu.

Mae templedi arsylwi gwersi yn cynnwys cyfleoedd priodol i roi sylwadau ar safonau disgyblion, ac ansawdd yr addysgu. Mae’r pennaeth dros dro wedi arsylwi’r rhan fwyaf o athrawon yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae’r fenter hon yn un ddiweddar iawn. Mae’n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu trefniadau cyffredinol ar gyfer arsylwi a chymedroli addysgu a dysgu.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau, yn achos perchennog sy'n gorfforaeth, yn gwmni Albanaidd neu'n gorff o bobl, fod yr unigolyn cyfrifol wedi gwneud cais am dystysgrif datgelu a gwahardd briodol a bod cais wedi cael ei gyd-lofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Rhan V Deddf yr Heddlu 1997. (4[aa])

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019